



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais  
Rhywiol

# Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol (2017-2020)

---

**Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol (2017-2020) Llywodraeth Cymru  
ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Cefndir</b>	<b>3-4</b>
<b>Bwrw ymlaen ag Amcan 1 y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021)</b>	<b>5-7</b>
<b>Gweithgareddau cyfathrebu Llywodraeth Cymru ar faterion VAWDASV</b>	<b>8-11</b>
<b>Ymgyrchoedd 2017 – 2018</b>	<b>12-13</b>
<b>Ymgyrchoedd 2018 – 2020</b>	<b>14-15</b>
<b>Gweithgareddau ategol ar gyfer ymgyrchoedd cenedlaethol</b>	<b>15</b>
<b>Gwerthuso</b>	<b>16-19</b>
<b>ATODIAD A: Diwrnodau/Wythnosau Ymwybyddiaeth o VAWDASV</b>	<b>20-21</b>

## Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol hwn yn amlinellu sut bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati yn yr hirdymor i gyflawni ymgyrchoedd cenedlaethol ac i gyfathrebu'n ehangach ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).

O fewn cyd-destun y Strategaeth Genedlaethol ar VAWDASV, mae'r fframwaith yn nodi dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar faterion cyfathrebu ar gyfer 2017-2020, a sut bydd hyn yn cael ei ddatblygu. Mae hefyd yn ceisio sefydlu cynllun blynyddol sy'n sôn am gyfleoedd pwysig i godi ymwybyddiaeth yn y maes hwn, a'r rheini'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol a gweithgareddau cyrff sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r cynllun tair blynedd cyffredinol a fydd yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn gyda gwybodaeth am ymgyrchoedd cyfathrebu a gyflwynwyd, ac am ymgyrchoedd unigol wrth gytuno ar eu manylion.

## Cefndir.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn torri un o elfennau sylfaenol hawliau dynol. Mae'n achosi anghydraddoldeb ac yn digwydd yn sgil anghydraddoldeb, ac mae iddo ganlyniadau pellgyrhaeddol i deuluoedd, i blant ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Rydym ni am wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru, er mwyn sicrhau gwlad a chymdeithas ffyniannus, gadarn, gydlynus, iachach a mwy cyfartal. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae'n rhaid i unigolion a grwpiau yn ein cymunedau allu byw eu bywyd heb ofni trais na cham-drin.

Cafodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Bwriad y Ddeddf yw sicrhau bod y sector cyhoeddus yn canolbwyntio ar **atal** y materion hyn, ar **amddiffyn** dioddefwyr ac ar y **gefnogaeth** sydd ar gael i'r rheini sy'n dioddef yn sgil y materion hynny.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol (2016-2021), sy'n cyflawni'r ymrwymiad yn adran 3 o'r Ddeddf, yn adeiladu ar ein cynnydd hyd yma, ac yn blaenoriaethu'r elfennau atal, amddiffyn a chynnig cefnogaeth yn unol â diben y Ddeddf.

Dyma'r amcanion polisi cyffredinol sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Genedlaethol:

Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru;

Amcan 2: Gwellu addysg am berthnasoedd iach a chydraddoldeb rhwng y rhywiau;

Amcan 3: Herio cyflawnwyr, eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd a darparu ymyriadau a chymorth i newid eu hymddygiad;

Amcan 4: Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr;

Amcan 5: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd;

Amcan 6: Cydweithio fel sector er mwyn deall a bodloni anghenion ein cymunedau, gan gynyddu capasiti'r sector a'i wneud yn fwy cynaliadwy.

Bydd yr amcanion hyn yn cyfrannu at y gwaith o atal trais a cham-drin, amddiffyn dioddefwyr a chynnig cefnogaeth i bawb sy'n dioddef yn sgil y materion hynny. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn egluro sut byddwn ni'n cyflawni'r nod hwn drwy'r amcanion a drwy gydweithio â chyrff yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

## **Bwrw ymlaen ag Amcan 1 y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021)**

Dyma yw Amcan 1 y Strategaeth Genedlaethol:

*Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru*

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n nod i godi ymwybyddiaeth ac i **herio agweddau** er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn y pen draw, rydym yn bwriadu creu cymdeithas **nad yw'n goddef** trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol.

I gyflawni'r amcan polisi hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- Datblygu Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol drwy ymgynghori â rhanddeiliaid i sicrhau dull gweithredu mwy cydlynus a hirdymor ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu. Bydd y fframwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i newid arferion, ymddygiad, agweddau, credoau, gwerthoedd a normau cymdeithasol o ran pob math o VAWDASV.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i newid arferion, ymddygiad, agweddau, credoau, gwerthoedd a normau cymdeithasol o ran pob math o VAWDASV. Byddwn yn gwneud hynny drwy gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu cyhoeddus a phenodol sy'n seiliedig ar strategaeth gyfathrebu bellgyrhaeddol, a drwy adnoddau sy'n herio credoau ac anghydraddoldeb ymysg cymunedau.
- Herio agweddau diwylliannol sy'n gallu bod yn sail i arferion niweidiol traddodiadol fel Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), priodas dan orfod a Thrais ar sail Anrhydedd, gan godi ymwybyddiaeth ym mhob cymuned. Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau arbenigol ar drais yn erbyn menywod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwasanaethau hynny, er mwyn helpu a chydweithio â hyrwyddwyr cymunedol i wella ymateb cymunedau i'r rheini sy'n goroesi trais a cham-drin.
- Drwy ein hymgyrchoedd cyfathrebu, byddwn yn cydweithio mewn ffordd gadarnhaol â dynion a bechgyn er mwyn herio pob math o VAWDASV.

- Gwella'r ffordd rydym yn gweithio gyda goroeswyr i ddatblygu polisïau a champau gweithredu. Bydd hyn yn llywio ein gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, ac yn ein galluogi ni i sicrhau nad yw goroeswyr yn cael eu cam-drin ymhellach.

## **Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol**

Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom gyhoeddi ein Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol sy'n egluro sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r ymrwymadau yn y Strategaeth Genedlaethol. Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r camau penodol sydd wedi'u cymryd hyd yma, ac yn egluro'n fanylach yr hyn y byddwn ni'n ceisio ei wneud dros y tair blynedd nesaf er mwyn cyflawni'r ymrwymadau yn y Strategaeth.

Gan weithio ar y cyd â rhanddeiliaid arbenigol a phobl sydd wedi goroesi ar ôl cael eu cam-drin, fe aeth Llywodraeth Cymru ati i wneud y canlynol yn 2017-2018 ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu:

- Datblygu a gweithredu Fframwaith Cyfathrebu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol
- Comisiynu adolygiad llenyddiaeth i sefydlu arferion da ar gyfer ymgyrchoedd VAWDASV yng Nghymru, a defnyddio'r adolygiad hwn i benderfynu ar weithgareddau cyfathrebu
- Sefydlu grŵp Cyfathrebu sy'n cynnwys rhanddeiliaid arbenigol, goroeswyr a chynrychiolwyr o'r maes cyfathrebu ar draws gwasanaeth cyhoeddus
- Datblygu ymgyrchoedd fel y rhain:
  - "Dyma Fi"<sup>1</sup> sy'n ceisio mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw fel ffactor sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac sydd felly'n achosi VAWDASV ac yn digwydd yn sgil VAWDASV;
  - "Paid cadw'n dawel"<sup>2</sup> sy'n annog unrhyw un sy'n poeni bod rhywun efallai'n cael ei gam-drin i ofyn "wyt ti'n iawn?"
- Cefnogi'r Ymgyrch Rhuban Gwyn i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn menywod drwy hyrwyddo'r ymgyrch ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru, cael achrediad fel Llywodraeth, hyrwyddo rôl y Llysgennad, a thaflunio'r rhuban gwyn ar safleoedd fel castell Harlech a chastell Caerffili ac Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd;
- Cyhoeddi ffilm i nodi Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod, gyda Llysgenhadon Rhuban Gwyn yn ymddangos yn y ffilm.

<sup>1</sup> <https://www.youtube.com/watch?v=RzNtxGR7NnM>

<sup>2</sup> [https://www.youtube.com/watch?v=91rFi9\\_8iDs](https://www.youtube.com/watch?v=91rFi9_8iDs)

**Yn 2018-2020, rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:**

- Diweddarau a chyhoeddi'r fframwaith cyfathrebu
- Datblygu pedair ymgyrch newydd ar y cyd â rhanddeiliaid a goroeswyr
- Sicrhau bod negeseuon ymgyrchoedd yn cael eu cyflwyno, eu hystyried a'u hyrwyddo mewn lleoliadau cymunedol allweddol drwy ddarparu grant Cyfathrebu â'r Gymuned
- Parhau i weithio gyda Llysgenhadon Rhuban Gwyn a rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo'r Ymgyrch Rhuban Gwyn, sy'n annog dynion a bechgyn i wneud safiad yn erbyn trais gan ddynion yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Ceisio sicrhau bod dynion a bechgyn yn cael eu cynrychioli yn holl waith yr ymgyrchoedd, ac yn gallu cyfrannu at ddatblygu'r ymgyrchoedd
- Datblygu ymgyrchoedd ar sail adborth a thystiolaeth goroeswyr, a cheisio cynrychioli Cymru gyfan yn yr ymgyrchoedd.



## **Gweithgareddau cyfathrebu Llywodraeth Cymru ar faterion VAWDASV**

Ers 2010 mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o ymgyrchoedd aml-gyfrwng i geisio mynd i'r afael â VAWDASV, gan dargedu cynulleidfaoedd cyffredinol ac eang a rhai penodol, gan gynnwys dioddefwyr a chyflawnwyr.

Yn 2011, daethpwyd â'r holl weithgareddau ymgyrchu o dan y faner '*Byw Heb Ofn*', ac rydym yn dal i fwrw ymlaen â hynny. Mae ymgyrchoedd blaenorol yn cynnwys 'Cymru – Gwneud Safiad', a 'Croesi'r Llinell'. Mae gweithgareddau cyfathrebu hefyd wedi cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â chyfleoedd a digwyddiadau penodol, er enghraifft, Twrnamaint Chwe Gwlad Undeb Rygbi Cymru, Dydd San Ffolant a chyfnod y Nadolig, a Digwyddiad Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod.

Sefydlwyd grŵp Cyfathrebu penodol ym mis Ebrill 2017, gyda'r aelodau'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid i fwrw ymlaen â'r gweithgareddau a'r fframwaith cyfathrebu newydd ar faterion VAWDASV rhwng 2017 a 2020. Cafodd asiantaeth cyhoeddusrwydd a marchnata integredig ei chontractio gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni ymgyrchoedd cyfathrebu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae creu'r Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol hwn yn sicrhau dull mwy cydlynus a hirdymor ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu ar faterion VAWDASV, ochr yn ochr â datblygu cyfres o ymgyrchoedd cyfathrebu cydlynus ac integredig.

Fel rhan o'i hymrwymiad i fynd i'r afael â VAWDASV, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ymgyrchoedd dwyieithog aml-gyfrwng i geisio codi ymwybyddiaeth o'r materion, herio agweddau a'i gwneud yn glir na fydd Cymru yn derbyn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol, y pethau sy'n achosi hynny na'r pethau sy'n digwydd yn sgil hynny.

### **Datblygu ymgyrchoedd**

Bydd yr holl ymgyrchoedd VAWDASV yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid arbenigol a goroeswyr. Caiff hyn ei hwyluso drwy grŵp Cyfathrebu VAWDASV.

## Y Grŵp Cyfathrebu

Bydd grŵp Cyfathrebu VAWDASV (y grŵp Cyfathrebu) yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag amcan 1 y Strategaeth Genedlaethol drwy:

- Lywio a chefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith cyfathrebu cenedlaethol i sicrhau negeseuon cydlynus a chyson ar faterion VAWDASV, a'r rheini'n cyrraedd cynulleidfa eang ar draws poblogaeth Cymru a chynulleidfaoedd penodol
- Helpu i lywio a chyfrannu at weithgareddau ymgyrchu Llywodraeth Cymru ar faterion VAWDASV

Mae'r grŵp Cyfathrebu wedi gwneud y canlynol:

Yn ystod 2017-2018:

Cyfrannu at y gwaith o gyflwyno themâu cyfathrebu bob mis rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Pan oedd hynny'n bosib, cafodd y themâu hyn eu llywio gan weithgareddau presennol mewn sectorau perthnasol – e.e. Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod, yr 16 diwrnod o weithredu a'r diwrnod cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o Stelcian – a'u cyflwyno ar y cyd pan oedd hynny'n bosib ac yn briodol.

Ers iddo gael ei sefydlu:

Cyfrannu syniadau i lywio cynlluniau ymgyrchu Llywodraeth Cymru ar faterion VAWDASV, a chynnig syniadau i ddatblygu'r ymgyrchoedd hyn.

Cynllunio ffyrdd o weithio mewn partneriaeth yn unol â Fframwaith Cyfathrebu VAWDASV.

## Aelodaeth a phresenoldeb

Bydd grŵp Cyfathrebu VAWDASV yn cael ei gadeirio gan Uwch Gyngorydd Polisi'r Tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.


Mae gan y grŵp Cyfathrebu dair **adran** i wneud y gwaith hwn; dwy'n gyfrifol am lywio a datblygu negeseuon ymgyrchoedd, ac un yn gyfrifol am ledaenu'r negeseuon hyn yn effeithiol.

1. **Goroeswyr VAWDASV**; mae'r grŵp hwn yn cael ei hwyluso drwy gyrff arbenigol i lywio gweithgareddau ymgyrchu a chyfathrebu ynghylch VAWDASV. Disgwylir y bydd y grŵp hwn yn dal i gwrdd yn rheolaidd.
2. **Partneriaid a chyrrff arbenigol ar faterion VAWDASV**; mae'r rhain yn cael eu henwebu drwy Grŵp Cyngori VAWDASV i lywio a chynllunio gweithgareddau ymgyrchu a chyfathrebu Llywodraeth Cymru ynghylch VAWDASV. Disgwylir y bydd y grŵp hwn yn dal i gwrdd yn rheolaidd.

Bydd gwaith y ddwy adran hyn yn llywio gwaith yr asiantaeth Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata a fydd yn helpu i ddatblygu a chyflwyno ymgyrchoedd ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r drydedd adran yn helpu i ledaenu'r ymgyrchoedd hyn, ac yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i greu negeseuon cryfach ac sy'n fwy cydgysylltiedig o ran VAWDASV.

3. **Cyfathrebu â rhanddeiliaid a phersonél ymgyrchoedd**; pwyntiau cyswllt yn yr holl gyrff rhanddeiliaid perthnasol a ddylai fod yn ymwybodol o ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru ar faterion VAWDASV, ac yn cymryd rhan yn yr ymgyrchoedd hynny.



Mae'r Grŵp Cyfathrebu'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau canlynol:

Y Sector Arbenigol ar faterion VAWDASV  
 Y System Cyfiawnder Troseddol  
 Iechyd  
 Awdurdodau Lleol  
 Llywodraeth Cymru  
 Goroeswyr VAWDASV

Mae'n rhaid i aelodau'r grŵp Cyfathrebu wneud y canlynol:

- Cefnogi'r grŵp drwy arwain ar weithgareddau cyfathrebu i gefnogi ymgyrchoedd a themâu, pan fydd yn briodol.
- Cynrychioli a gwneud penderfyniadau ar ran eu cyrrff eu hunain ynghylch cymryd rhan yn Fframwaith Cyfathrebu VAWDASV a chyfrannu ato.
- Cefnogi ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy eu gweithgareddau cyfathrebu eu hunain.
- Rhoi gwybod i'r grŵp am gynlluniau cyfathrebu eu cyrrff eu hunain.

## Ymgyrchoedd 2017-2018

Cafodd dwy ymgyrch ei chreu a'i chyhoeddi yn 2017-18; "DYMA FI", a "Paid cadw'n dawel". Bydd cynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol yn adeiladu ar yr ymgyrchoedd cychwynnol hyn. Cafodd yr ymgyrchoedd hyn eu datblygu gyda help gan randdeiliaid arbenigol a rhwydwaith o bobl sydd wedi goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r ymgyrch **DYMA FI** yn herio effaith normau o ran y rhywiau, stereoteipio ar sail rhyw ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau fel pethau sy'n achosi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a rhai mathau o drais rhywiol. Lansiodd DYMA FI ym mis Ionawr 2018, ac mae'n ceisio sbarduno trafodaeth am hunaniaeth o ran rhywedd, stereoteipio ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'n sail i gynllun ymgyrchu tair blynedd.

### Y Prif negeseuon

- Mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau'n achosi trais yn erbyn menywod a merched, ac yn digwydd yn sgil hynny
- Mae Cymru eisiau i ddynion a menywod fyw heb fod ag ofn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol, y ffactorau sy'n achosi hynny na'r hyn sy'n digwydd yn sgil hynny. Mae cam-drin fel hyn yn annerbyniol bob amser - does dim esgus

### Y Gynulleidfa

Roedd yr ymgyrch DYMA FI wedi'i hanelu at gynulleidfa eang o ddinasyddion yng Nghymru, ac yn targedu negeseuon a grwpiau penodol o fewn y gynulleidfa ehangach honno.

Lansiodd **PAID CADW'N DAWEL** ym mis Ebrill 2018. Mae'r ymgyrch hon yn mynd ati i annog pobl i weithredu os ydyn nhw'n amau bod rhywun yn cael ei gam-drin. Mae'r ymgyrch hon yn dangos pam mae'n bwysig ymyrryd mewn unrhyw ffordd (er enghraifft, gwneud yn siŵr bod rhywun yn iawn, peidio â derbyn iaith dreisgar na sarhaus, peidio â chwerthin ar hiwmor rhywiaethol na threisgar, ffonio'r llinell gymorth neu'r heddlu). Mae'r ymgyrch hefyd yn pwysleisio bod y rheini sy'n cael eu cam-drin yn rhan o gymuned i'r un graddau â'r bobl sy'n dyst i'r cam-drin. Mae'r ymgyrch yn seiliedig ar brofiadau go iawn goroeswyr o'r bobl hynny sydd wedi ymyrryd – teulu, ffrindiau, cydweithwyr a darparwyr gwasanaeth, gyda goroeswyr yn rhannu canlyniadau'r ymyrryd.

## **Y Prif negeseuon.**

- Dydy Cymru ddim yn fodlon bod yn dyst a derbyn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol
- Annog a grymuso pobl i weithredu os ydyn nhw'n amau bod rhywun yn cael ei gam-drin – mae cynnig unrhyw gymorth yn gallu helpu
- Mae Cymru eisiau i ddynion a menywod allu byw heb ofni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol, y ffactorau sy'n achosi hynny, a'r hyn sy'n digwydd yn sgil hynny
- Beth mae bywyd heb ofn yn ei olygu

## **Y Gynulleidfa**

- Roedd yr ymgyrch "Paid cadw'n dawel" yn targedu'r bobl hynny sy'n agos at ddioddefwyr VAWDASV, ac yn dangos pam mae'n bwysig ymyrryd. Mae'r ymgyrch yn annog pobl i fynd i dudalen yr ymgyrch ar y wefan Byw Heb Ofn i gael rhagor o wybodaeth, neu i ffonio'r llinell gymorth os ydyn nhw'n poeni neu angen cyngor

Fodd bynnag, mae'n hollbwysig lledaenu'r neges ymysg y grwpiau cyffredinol canlynol

- Teulu, Ffrindiau, y Cyhoedd
- Goroeswyr
- Cyflawnwyr
- Plant a Phobl Ifanc

Mae'n bosib gweld yr ymgyrchoedd hyn yma:

<https://livefearfree.gov.wales/campaigns/?skip=1&lang=cy>

## Ymgyrchoedd 2018-2020

Mae pedair ymgyrch ar y gweill ar gyfer 2018 – 2020. Bydd y rhain yn dod o dan faner ‘*Byw Heb Ofn*’, gyda ‘**Rheolaeth**’ fel thema gyffredinol. Mae goroeswyr wedi bod yn galw’n helaeth am ymgyrch ar y pwnc hwn, a bydd cynlluniau ymgyrchu’n cael eu datblygu gyda goroeswyr a’r grŵp cyfathrebu arbenigol.

Bydd pedwar pwnc penodol yn cael eu hystyried o dan y thema rheolaeth.

### 2018 – 2019

- Rheolaeth drwy orfodaeth
- Rheolaeth a’r bobl hynny mewn cymunedau amrywiol/sydd ag anghenion ychwanegol/mathau penodol o gam-drin

### 2019 – 2020

- Rheolaeth a threisio, trais a cham-drin rhywiol
- Rheolaeth a phrofiad pobl ifanc o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Bydd yr ymgyrch gyntaf ar reolaeth drwy orfodaeth yn canolbwyntio ar yr arwyddion o berthynas niweidiol er mwyn annog dioddefwyr, pobl sy’n dyst i’r ymddygiad a chyflawnwyr i adnabod y mathau o ymddygiad sy’n enghreifftiau o reolaeth drwy orfodaeth.

I ddioddefwyr a’r rheini sy’n dyst i’r ymddygiad, mae deall yr arwyddion hyn/ymddygiad hwn yn gallu eu helpu i benderfynu a ydyn nhw mewn perthynas niweidiol, neu berthynas beryglus hyd yn oed.

Bydd yr ymgyrch hon yn symud ymlaen i’r ail gyfnod o weithgareddau yn ystod 2018-2019. Bydd y senarios yn cael eu haddasu i dargedu’r gwahanol gynulleidfaoedd, ac i ganolbwyntio ar gymunedau amrywiol a materion penodol sy’n wynebu cymunedau lleiafrifol.

Bydd yr ymgyrch ar reolaeth drwy orfodaeth yn cael ei chyflwyno drwy gyfres o sianeli integredig, ac yn cael ei hategu gan ymgyrch bwerus ar gyfryngau cymdeithasol.

Bydd y materion penodol a'r senarios a ddefnyddir yn yr ymgyrch yn cael eu datblygu gyda'r rheini sydd wedi goroesi ar ôl cael eu cam-drin.

Mis Ionawr 2019 yw'r dyddiad sydd wedi'i awgrymu ar gyfer lansio'r ymgyrch ar Reolaeth drwy Orfodaeth. Bydd diweddariad 2019 y Fframwaith yn cynnwys manylion am gynlluniau ymgyrchu ar gyfer 2019-2020.

### **Gweithgareddau ategol ar gyfer ymgyrchoedd cenedlaethol**

Yn 2018-2019, bydd ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru ar faterion VAWDASV yn cael eu cefnogi gan weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, sy'n ceisio sicrhau bod ein hymgyrchoedd yn cyrraedd cynulleidfa ehangach. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, ystyried a hyrwyddo mewn lleoliadau cymunedol, a bydd yn canolbwyntio ar naill ai'r ymgyrch DYMA FI, yr ymgyrch Paid cadw'n dawel, neu'n gweithio gyda dynion a bechgyn i herio aflonyddu, cam-drin a thrais.

Bydd y gweithgareddau cyfathrebu â'r gymuned hefyd yn cefnogi ac yn cyd-fynd â gweithgareddau i nodi Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod, a'r diwrnod Rhuban Gwyn ar 25ain Tachwedd 2018.



## Gwerthuso

Rydym yn defnyddio'r model OASIS<sup>3</sup> (sy'n sefyll am Amcanion, Deall y Gynulleidfa, Strategaeth/Syniad, Gweithredu a Sgorio/Gwerthuso) ar gyfer pob ymgyrch. Mae'n gyfres o gamau sy'n gallu helpu i sicrhau trefn, eglurder a chysondeb wrth gynllunio pob ymgyrch. Elfen bwysicaf y model hwn yw gosod amcan cyfathrebu CAMPUS\*, a dylid gwneud hyn ymhell cyn dechrau ar y gweithgaredd.

\*Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol



<sup>3</sup> Government Communication Service

I sicrhau bod ein negeseuon a'n prosesau cyfathrebu ar gyfer ein hymgyrchoedd cenedlaethol yn effeithiol ac yn ddealladwy, rydym yn mesur ac yn gwerthuso gweithgareddau. Mae gwerthuso'n broses barhaus, a bydd cysylltiad agos rhwng hynny a'r gwaith o gynllunio'r holl ymgyrchoedd/gweithgareddau cyfathrebu. Mae hefyd yn cael ei fesur yn erbyn y prif amcanion cyfathrebu a'r model OASIS sydd wedi'i nodi yn y fframwaith hwn.

Bydd y model gwerthuso isod yn dal i gael ei ddefnyddio gan yr asiantaeth marchnata a chyhoeddusrwydd er mwyn mesur y canlynol:

Mewnbwn yr ymgyrch: beth sy'n cael ei gynhyrchu


Allbwn yr ymgyrch: beth yw'r lefelau adnabod a'r gynulleidfa mae'r ymgyrch wedi llwyddo i'w chyrraedd

Argraffiadau o'r ymgyrch: dealltwriaeth y gynulleidfa o negeseuon allweddol; ymweliadau â'r wefan

Canlyniadau'r ymgyrch: beth sydd wedi digwydd yn sgil eich ymgyrch – newid ymddygiad, agwedd

Effaith ar y corff: effaith ar nodau'r corff

## Model Gwerthuso



**Bydd y gweithgareddau Cyfathrebu â'r Gymuned yn cael eu gwerthuso yn erbyn y mesurau canlynol:**

- Nifer y bobl sydd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau.
- Rhyw'r bobl a gymerodd ran.
- Amrywiaeth y bobl a gymerodd ran.
- Effaith y gweithgareddau, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i hynny; unrhyw newid yn y lefelau ymwybyddiaeth o VAWDASV, DYMA FI a "Paid cadw'n dawel" ymysg y rheini a gymerodd ran yn y gweithgareddau, unrhyw newid yn eu lefelau hyder i ofyn am help neu i gynnig help i'r rheini sy'n profi VAWDASV neu a allai fod yn profi hynny, unrhyw newid yn eu bwriad i herio anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a stereoteipio ar sail rhyw, unrhyw newid yn eu bwriad i ymddwyn yn wahanol yn dilyn y gweithgaredd (dylid rhoi enghreifftiau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru).

## ATODIAD A – Diwrnodau/Wythnosau sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â VAWDASV

Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill
	<p><b>6 Chwefror</b> Diwrnod Rhyngwladol Dim Goddefgarwch o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod</p> <p><b>11 Chwefror</b> Diwrnod Rhyngwladol Menywod a Merched yn maes Gwyddoniaeth</p> <p><b>5-11 Chwefror 2018</b> Wythnos ymwybyddiaeth o gam-drin rhywiol a thrais rhywiol</p> <p>Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT)</p>	<p><b>8 Mawrth</b> Diwrnod Rhyngwladol y Menywod</p> <p><b>18 Mawrth</b> Diwrnod ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant</p> <p><b>Mawrth (bob blwyddyn)</b> Comisiwn ar Statws Menywod (CSW 62 12-23 Mawrth)</p>	<p><b>16-20 Ebrill</b> Wythnos ymwybyddiaeth o stelcian</p>
Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst
<p><b>17 Mai</b> Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia</p>	<p><b>1-30</b> Mis Hanes Sipsi/Roma a Theithwyr</p> <p><b>15 Mehefin</b> Diwrnod Ymwybyddiaeth Fyd-eang o Gam-drin Pobl Hŷn</p> <p><b>19 Mehefin</b> Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais Rhywiol mewn Lleoliadau o Wrthdaro</p> <p><b>23 Mehefin</b> Diwrnod Rhyngwladol ar Hawliau Plant</p>	<p><b>7 -11 Gorffennaf</b> Wythnos ymwybyddiaeth o briodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd</p> <p><b>30 Gorffennaf</b> Diwrnod y Byd yn gwrthwynebu masnachu pobl</p>	<p><b>12 Awst</b> Diwrnod Rhyngwladol Ieuencid</p>

<b>Medi</b>	<b>Hydref</b>	<b>Tachwedd</b>	<b>Rhagfyr</b>
	<p><b>2 Hydref</b> Diwrnod Rhyngwladol Dim Trais</p> <p><b>2<sup>il</sup> ddydd Mawrth ym mis Hydref</b> Diwrnod Ada Lovelace</p> <p><b>11 Hydref</b> Diwrnod Rhyngwladol y Genethod</p> <p><b>18 Hydref</b> Diwrnod Atal Caethwasiaeth Mis Hanes Pobl Dduon Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb</p>	<p><b>13 Tachwedd</b> Wythnos Genedlaethol Diogelu</p> <p><b>19 Tachwedd</b> Diwrnod Rhyngwladol y Dynion</p> <p><b>20 Tachwedd</b> Diwrnod Cofio Pobl Drawsryweddol</p> <p><b>25 Tachwedd</b> Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod (Dechrau'r 10 diwrnod o weithredu)</p>	<p><b>10 Rhagfyr</b> Diwrnod Hawliau Dynol</p>